Plant wedi hedfan y nyth?

Cymerwch y cyfle i gynllunio eich incwm ymddeoliad. Dechreuwch nawr drwy ddilyn ein camau syml

Ydych chi dros 50? A yw'r plant wedi gadael cartref i ganfod eu ffordd eu hunain mewn bywyd – yn eich gadael gydag ychydig o arian ychwanegol yn eich poced?

Os ych chi yw hwn, y siawns yw eich bod yn meddwl am sut i wneud y mwyaf o'r cyfnod nesaf o'ch bywyd. Mae nifer cynyddol o bobl dros 50 yn dewis i fyw bywyd i'r eithaf drwy barhau i weithio yn ogystal â chymryd y cyfle i ddysgu sgiliau newydd, cyfarfod â phobl newydd a threulio mwy o amser gyda'u ffrindiau a theulu – ac o ganlyniad nid ydynt erioed wedi bod yn hapusach.

Ond os ydych eisiau parhau i wneud y pethau rydych yn caru yn eich ymddeoliad fydd rhaid i chi feddwl am ail-flaenoriaethu eich arian a chynllunio ymlaen. Y dyddiau hyn gall y rhan fwyaf ohonom ddisgwyl byw ymhell i mewn i'n wythdegau – sef tua 20 mlynedd tu hwnt i'r oedran Pensiwn y Wladwriaeth bresennol – felly mae'n bwysig iawn i bobl feddwl am eu hymddeoliad a sut maent am ei ariannu.

Mae eich Pensiwn y Wladwriaeth yn sylfaen dda. Rydych angen gwybod beth fyddwch yn ei gael ohono a p'un ai os oes angen i chi gymryd camau i ychwanegu ato os ydych yn darganfod nad oes gennych ddigon. Gallwch ddewis i weithio yn hirach i gynyddu eich incwm ymddeoliad neu ychwanegu at eich Pensiwn y Wladwriaeth gyda phensiwn preifat eich hun.

Dyma rai o gamau syml gallwch eu cymryd nawr i gychwyn:

CAM UN: Darganfyddwch faint o Bensiwn y Wladwriaeth rydych wedi ei adeiladu hyd yn hyn

I gael y Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn mae'n rhaid i chi adeiladu nifer penodol o flynddoedd o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, a elwir yn 'blynyddoedd cymhwyso'. Mae'r nifer o flynyddoedd cymhwyso rydych ei angen yn dibynnu ar eich oedran:

- mae dynion a merched sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010 angen 30 o flynyddoedd cymhwyso i gael Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol llawn.

Os oeddech wedi cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2010, ewch i'n gwefan yn www.direct.gov.uk/dyfodolgwell i weld faint o flynyddoedd cymhwyso rydych ei angen.

Mae'r amlinellydd Pensiwn y Wladwriaeth yn declyn syml sy'n dangos i chi faint o Bensiwn y Wladwriaeth sylfaenol efallai ydych wedi ei adeiladu hyd yn hyn a phryd gallwch wneud cais amdano. Gallwch weld hwn drwy fynd i www.direct.gov.uk/pensiwnywladwriaeth

CAM DAU: Os nad oes gennych Bensiwn y Wladwriaeth sylfaenol llawn eich hun, darganfyddwch os allwch ychwanegu ato drwy eich partner

Os oes gennych ŵr, gwraig neu bartner sifil gyda chofnod Yswiriant Gwladol dda, gallech fod â hawl i rywfaint o Bensiwn y Wladwriaeth sylfaenol drwyddynt hwy. Gall hyn rhoi cyfanswm o Bensiwn y Wladwriaeth o hyd at 60 y cant o'r gyfradd lawn i chi gan gynnwys unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth eich hun.

Ar hyn o bryd mae'r Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol llawn yn tua £97 yr wythnos, felly fe allech gael cyfanswm o tua £58 yr wythnos. Am fwy o wybodaeth ewch i www.direct.gov.uk/pensiwnywladwriaeth

Bydd yr hyn sy'n iawn i chi yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol, felly gwnewch yn siwr fod yr holl wybodaeth rydych ei angen gennych i wneud y penderfyniad cywir.

Cysylltwch â ni am fod yn bartner:
pensions.planning@dwp.gsi.gov.uk

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Plant wedi hedfan y nyth? (tudalen 2)

CAM TRI: Darganfyddwch os all cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol hefyd rhoi Pensiwn y Wladwriaeth mwy i chi

Efallai gallwch brynu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol. Mae'r rhain yn daliadau gallwch eu gwneud os oes gennych fylchau yn eich cofnod.

Gall y rhain eich helpu i gael Pensiwn y Wladwriaeth mwy pan rydych yn ei hawlio. Mae yna derfynau amser i dalu y rhain felly gwiriwch sut gall unhyw gyfyngiadau effeithio arnoch cyn i chi benderfynu os yw'n opsiwn da. Bydd yr hyn sy'n iawn i chi yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol, felly gwnewch yn siwr fod yr holl wybodaeth rydych ei angen gennych i wneud y penderfyniad cywir. Cewch wybod mwy yn www.direct.gov.uk/topupni

CAM PEDWAR: Meddwl am weithio yn hirach a gohiro eich Pensiwn y Wladwriaeth

Nid oes oedran ymddeol y Wladwriaeth. Gallwch barhau i weithio heibio eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac mae llawer o fanteision i aros mewn gwaith. Er enghraifft, unwaith rydych wedi cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth ni fyddwch yn talu Yswiriant Gwladol ar eich enillion. Efallai mae'n gwneud synnwyr ariannol i ohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth os oes gennych incwm arall fel cyflog, oherwydd gallwch gael swm wythnosol uwch nes ymlaen, neu gyfandaliad gyda llog, os ydych yn gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth am o leiaf blwyddyn.

Mae gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth yn benderfyniad fydd rhaid i chi ei wneud yn seiliedig ar eich amgylchiadau unigol. I gael gwybod mwy ewch i www.direct.gov.uk/gohiriopensiwnywladwriaeth

Y dyddiau hyn mae llawer o opsiynau i weithwyr hŷn. Gallwch siarad â'ch cyflogwr ynglŷn ag aros ymlaen, newid swyddi, neu weithio'n hyblyg. Cewch wybod mwy yn http://betterfuture.direct.gov.uk/when-can-i-retire-cy.html

CAM PUMP: Olrhain unrhyw gynlluniau pensiynau preifat, personol neu waith sydd ar goll

Efallai eich bod wedi talu i mewn i gynlluniau pensiwn am gyfnod byr ac wedi anghofio amdanynt. Gall symiau bychan adio i fyny a gwneud gwahaniaeth mewn ymddeoliad, Mae tua £3 biliwn heb eu hawlio mewn cyfrifon pensiwn. Cewch wybod mwy yn www.direct.gov.uk/olrhainpensiwn

Mae llawer mwy o wybodaeth ar-lein yn www.direct.gov.uk/dyfodolgwell

Cysylltwch â ni am fod yn bartner:
pensions.planning@dwp.gsi.gov.uk

DWP Adran Gwaith a Phensiynau